

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbyttffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Rogiet) a Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

The M4 Motorway (Eastbound Carriageway between Junction 23 (Rogiet) and the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018

Gwnaed 10 Gorffennaf 2018

Made 10 July 2018

Yn dod i rym 12 Gorffennaf 2018

Coming into force 12 July 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 Motorway, are satisfied that traffic on a specified length of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the motorway.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(2), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbyttffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Rogiet) a Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Gorffennaf 2018.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Eastbound Carriageway between Junction 23 (Rogiet) and the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 12 July 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Gorffennaf 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the motorway" ("*y draffordd*") means the M4 London to South Wales Motorway;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar y darn o gerbyttfordd tua’r dwyrain y draffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain i’r M48 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Gorffennaf 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 12 July 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed on the length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road onto the M48 at Junction 23 (Rogiet) to the Wales/England border.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

10 July 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN RHWNG CYFFORDD 23 (ROGIET) A FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 23 (Rogiet) a ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain i'r M48 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Y llwybr arall o Gyffordd 23 yw mynd ar yr M48 er mwyn ailymuno â'r M4 wrth Gyffordd 21.

Ni fydd cerbydau sy'n cario llwythi dros 44 o dunelli yn gallu defnyddio'r llwybr dargyfeirio. Felly, caiff cymdeithasau cludo eu hysbysu ymlaen llaw a byddant yn cynghori aelodau i osgoi cludo llwythi o'r fath yn ystod cyfnod y gwaith. Os bydd cau'r ffordd yn effeithio ar unrhyw gerbyd, dylai'r cerbyd hwnnw ymadael â'r M4 wrth Gyffordd 23A (Magwyr) ac aros yng Ngwasanaethau Magwyr hyd nes bod y darn o brif gerbyttffordd yr M4 yn ailagor.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 12 Gorffennaf 2018 ac yn weithredol tan 06:00 o'r gloch ar 13 Gorffennaf 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE M4 MOTORWAY (EASTBOUND CARRIAGEWAY BETWEEN JUNCTION 23 (ROGIET) AND THE WALES/ENGLAND BORDER, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 23 (Rogiet) and the Wales/England border, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the M4 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road onto the M48 at Junction 23 (Rogiet) to the Wales/England border.

The alternative route from Junction 23 is via the M48 to rejoin the M4 at Junction 21.

Vehicles carrying loads over 44 tonnes will be unable to use the diversion route. Transport associations will therefore be notified in advance to advise members to avoid transporting such loads during the works period. If any vehicles are affected by the closure they should leave the M4 at Junction 23A (Magor) and wait at Magor Services until the length of the main M4 reopens.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 20:00 hours on 12 July 2018 and operate until 06:00 hours on 13 July 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government